

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Cymuned Llandybie a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybie ar nos Fercher, Ionawr 29^{ain}, 2020 am 7.40 yh

Cynghorwyr	R.A Davies	W.D. Evans	E.W. Nicholas
	D. Nicholas	P.H. Roberts	
Ymddiheuriadau	N. Evans	Mrs J.E. Collins	

Ceisiadau am ganiatâd cynllunio a ystyriwyd ar Ionawr gan Cadeirydd Y Cyngor a'r Clerc yn gweithredu gydag awdurdod llawn.

B3077/E39850

Cymeradwyo'r Materion a Gedwir yn Ôl i E/33711 yn dilyn y caniatâd cynllunio amlinellol i godi byngalo ar lain ger 186 Heol Hendre, CAPEL HENDRE.

-MATERION A GEDWIR YN ÔL

Sylwadau:

Dim sylwadau

B3078/E39892

Datblygiad arfaethedig o ffordd gyswllt rhwng Ffordd Gyswllt Economaidd Arfaethedig Cross Hands a'r B4556 Heol Norton, ynghyd â gwaith draenio a thirlunio cysylltiedig ar y ffordd gyswllt arfaethedig rhwng Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands a Heol Norton, PENYGROES

- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau:

Dim sylwadau

B3079/E39907

Gosod tanciau cadw nitrogen hylifol a'r offer cysylltiedig a ddefnyddir i gynhyrchu powdrau aloi sy'n atomeiddio yn LSN Diffusion LTD, 2 Ystâd Ddiwydiannol Cilyrychen, LLANDYBÏE

- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau:

Dim sylwadau

B3080/39917

Cais am ganiatâd i gloddio, gan ddefnyddio dulliau mwyngloddio brig, 110,000 tonnelli o lo caled o'r ansawdd gorau o'r estyniad arfaethedig yng Nglan Lash. Mae'r estyniad yn ymestyn dros 10.03HA o dir i'r gogledd o safle presennol Pwll Glo Glan Lash, ac wedi'i ganoli ar E261560, N213900 ym Mhwll Glo Glan Lash, Heol Shands, LLANDYBÏE

- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau:

Roedd yr aelodau wedi penderfynu yn flaenorol pan y cyflwynwyd y cais cyn ymgeisio eu bod am gefnogi'r datblygiad arfaethedig. Gan ystyried gweithrediad ardderchog y cloddio ar hyn o bryd, y cyfleoedd lleol am gyflogaeth, y gefnogaeth ariannol bresennol a pharhaus i fudiadau lleol a'r defnydd eco-gyfeillgar o'r glo, mae'r cais yn cael ei gefnogi, ac mae'r Cyngor yn argymhell y dylid caniatâu Caniatâd Cynllunio.

B3081/E39994

Estyniad un-llawr i'r cefnllun, ynghyd â newidiadau, yn 8 Parc Pencae LLANDYBÏE

-CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau:

Dim sylwadau

Ionawr 29^{ain}, 2020

B3082/E40015

Cynllun arfaethedig i godi ffens ffin gydag ystyriaeth ôl-weithredol am uned storio ar dir sy'n rhan o Fyngalo Brookside, 4 Pantyblodau, BLAENAU.

-CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau:

Dim sylwadau

B3083/E40019

Amrywio amodau rhif 2 a 4 o E/35557 (Mynediad i Gerbydau) ar dir ger Pont Y Clerc, PENYBANC.

-Amrywio Amod(au) Cynllunio

Sylwadau:

Dim sylwadau

CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO A DDERBYNIWYD ODDIWRTH YR AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL I'W HYSTYRIED YNG NGHYFARFOD PWYLLGOR CYNLLUNIO Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR IONAWR 29^{ain}, 2020, GAN WEITHREDU GYDAG AWDURDOD LLAWN.

B3084/E40022

Diwygiad ansylweddol i E/40022 yn Ysgol Gynradd Sirol Penygroes, PENYGGROES

- DIWYGIAD ANSYLWEDDOL

Sylwadau:

Dim sylwadau

B3085/E40031

Datblygu warws cynhyrchu newydd, ynghyd â pharlwr manwerthu yn Franks Ice Cream, Ystâd Ddiwydiannol Capel Hendre, CAPEL HENDRE

- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau:

Dim sylwadau

B3086/E40072

Caniatâd cynllunio amlinellol am ddatblygiad arfaethedig un tŷ annedd preswyl 2 ystafell wely, gan gynnwys lleoli cartref symudol dros-dro. Rhoddwyd caniatâd amlinellol yn flaenorol, ond erbyn hyn roedd hwn wedi pallu, ar dir yn 12A Heol Hendre, CAPEL HENDRE

- CANIATÂD CYNLLUNIO AMLINELLOL

Sylwadau:

Dim sylwadau

B3087/E40074

Ystafell wely un llawr gyda chyfleusterau *en suite* i'r cefnlun, ac arwyneb solet i barcio cerbydau oddiar y ffordd ar gyfer gwaith addasu i'r anabl yn 122 Heol Blaenau, LLANDYBIE

- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau:

Dim sylwadau

B3088/E40117

Caniatâd Cynllunio Amlinellol Arfaethedig ar gyfer un tŷ annedd ynghyd â gofod i droi cerbyd ar dir ger 10 Teras Waterloo, CAPEL HENDRE

- CANIATÂD CYNLLUNIO AMLINELLOL

Sylwadau:

Dim sylwadau

B3089/E40118

Estyniad un llawr i gefnlun y tŷ annedd presennol yn Brooklands, Heol Penygroes, BLAENAU

- CANIATÂD CYNLLUNIO LLAWN

Sylwadau:

Dim sylwadau

B3090/E40131

Amrywio Amod rhif 2 o E/34150 ar lain o dir ger 5, Heol Parklands, PENYBANC

- AMRYWIO AMOD(AU) CYNLLUNIO

Sylwadau:

Dim sylwadau

672.

Hysbysiad Apêl

Gyrrwyd apêl at Weinidogion Cymru yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir Caerfyrddin i wrthod caniatâd i Gais Cynllunio E/39453, cais sy'n cyfeirio at dŷ annedd preswyl sengl yn Heol Waunfadog, Aberlash, Llandybie.

Bydd y sylwadau gwreiddiol a gyflwynwyd gan y Cyngor Cymuned yn aros yn ddigyfnewid.

B3063/E39453

Tŷ annedd preswyl sengl (Caniatâd Amlinellol, gan gadw'r holl faterion yn ôl i'w hystyried ymhellach) yn Rhiwmarlais, llain o dir ar Heol Waunfadog, Heol Aberlash, LLANDYBÏE
- AMLINELLOL

Sylwadau:

Dylid ystyried ymhellach yr effaith ar y tai presennol a'r effaith ar y Gorchmynion Diogelu Coed.

673.

Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.50 yh